| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **22 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **RHEOLI RISG** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR RISG AC YSWIRIANT** |
| **GWEITHREDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Fe gymeradwywyd Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor a'r Canllawiau Rheoli Risg gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref 2012.

**1.2** Mae'r dogfennau hyn yn galw ar y Pwyllgor Archwilio i adolygu'r Fframwaith Rheoli Risg ac adolygu a herio'r risgiau corfforaethol uchaf.

## 2. GWEITHREDU RHEOLI RISG

**2.1** Oherwydd yr anawsterau gyda rheoli risg yn cael ei ymgorffori ar draws y Cyngor, mae cwmni allanol wedi ei gyflogi i adolygu o'r trefniadau presennol.

**2.2** Bydd yr adolgyiad yn cychwyn ym Medi 2014 a bydd yn cynnwys: -

i. Adolygu'r Strategaeth a Canllawiau Rheoli Risg presennol a chynnig gwelliannau;
ii. Ymgysylltu gydag Aelodau, Rheolwyr a Gwasanaethau i wella eu dealltwriaeth ac ymagwedd at reoli risg;
iii. Adolygu'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth cyfredol, cynorthwyo i nodi bylchau yn y risgiau a nodwyd, ac awgrymu dull ar gyfer sicrhau cysondeb yn yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio risgiau a'r sgorio tebygolrwydd ac effaith;
iv. Adolygu'r trefniadau ar gyfer symud risgiau Gwasanaeth, Prosiect a'r Bartneriaeth i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, argymell gwelliannau i'r trefniadau hyn;
v. Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a chynorthwyo i nodi bylchau yn y risgiau a nodwyd.

**2.3** Rhagwelir y bydd yr adolygiad hwn yn caniatáu i rheoli risg gael ei hymgorffori'n llawn a'u halinio ag arferion gweithio eraill.

**2.4** Mae cost yr adolygiad yn cael ei ariannu o'r gyllideb rheoli risg bresennol.

**2.5** Yn y cyfamser, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn parhau i gefnogi Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Gwasanaeth.

## 3. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

**3.1** Adolygwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol gan Y Pennaethiaid a'r UDA ym mis Mehefin 2014 ac mae risgiau uchaf y Cyngor wedi eu hadnabod fel:-

YM34 Methu â dod i gytundeb mewn perthynas â hawliadau cyflog cyfartal a gyflwynwyd hyd yma
YM31 Risg o beidio bod yn cydymffurfiol â deddfwriaeth Diogelu Data
YM44 Diffyg capasiti i ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd mewn meysydd allweddol
YM46 Methu cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol gyda gweithwyr
YM47 Ddim yn cael digon o gyllideb i dalu am ymrwymiadau presennol
YM49 Methiant i gasglu incwm / arian dyledus yn effeithiol neu o gwbl

**3.2** Mae'r risg sy'n gysylltiedig â'r hawliadau cyflog cyfartal wedi cael ei symud i fynu oherwydd y nifer, amser uwch reolwyr a'r gost sy'n gysylltiedig â'r hawliadau hyn.

**3.3** Disgwylir y bydd lefel y risg sy'n gysylltiedig â llywodraethu gwybodaeth yn gostwng unwaith y bydd y ffrydiau gwaith prosiect Llywodraethu Gwybodaeth yn cael eu cwblhau a'u hymgorffori mewn arferion gwaith.

**3.4** Mae'r risgiau uchel sy'n weddill yn risgiau sydd wedi eu hadnabod o'r newydd a byddent yn cael eu craffu yn fanylach yn yr wythnosau nesaf.

**3.5** Yn dilyn gwaith i liniaru risgiau, nid yw'r risgiau canlynol bellach yn yn cael eu hystyried yn risgiau uchel: -

YM08 Methu â chynllunio ar gyfer gostyngiad sylweddol mewn cyllideb o 2015/2016
YM33 Methu â darparu gwasnaethau o fewn y gyllideb a ddarperir
YM36 Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd

Mae'r risgiau hyn i gyd bellach yn cael eu hystyried yn risgiau canolig i allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.

## 4. ARGYMHELLION

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**JULIE JONES**
**RHEOLWR RISG AC YSWIRIANT** **15 GORFFENNAF 2014**